Cyngor Tref

PWLLHELI

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6.30y.h NOS IAU 8 IONAWR 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

COPI DRAFFT

Cof;-0101/15 Presennol.

.....

Y Maer, Cyng. Michael Sol Owen,

Cyng. E J Hughes, M.Parry, Elfed Gruffydd, Mici Plwm, Jonathan Roberts, Eurig Evans, Eric Wyn Roberts, Dewi O Jones, Alan Williams,Parch Ioan Gruffydd, Myrddin Owen.

Cof;- 0201/15 Ymddiheuriadau.

.....

Dirprwy Faer, Cyng. Henry Williams.

Cyng J G Owen Iwan Edgar.

Cof;-0301/15 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd i'w trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0401/15 Gair gan y Maer.

.....

Rhagfyr 3ydd

Bu i'r Faeres agor Bore Coffi Hosbis yn y cartref yn Festri Penlan.

Wythnos y Nadolig.

Tros nifer o nosweithiau bu i'r Maer a'r Faeres gael golwg ar addurniadau Nadolig y Siopau a thai ar enillwyr oedd

Tai

1af C Saynor 2ail D Shilvock (Morfa Garreg 3ydd V Lea Ffordd Caerdydd.

Siopau

1af Siop Fach (copi) 2ail Siop Hefina 3ydd Siop Eluned.

24 Rhagfyr,

Bu i'r Maer a'r Faeres ymweld â Bryn Beryl,Tan y Marian a Phlas y Don.

Cof;-0501/15 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

.....

Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cof;-0601/15 Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.

.....

Yr oedd un Aelod o'r wasg yn bresennol.

Cof;-0701/15 Cadarnhau cofnodion Rhagfyrv2014.

.....

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Rhagfyr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-0801/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....

A) Planhigion yn bla

Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gyngor Gwynedd yn egluro fod planhigion ymledol yn broblem Genedlaethol sy'n gwaethygu'n flynyddol, fel uned maent yn darparu cyngor i'r cyhoedd neu i adrannau eraill o fewn y Cyngor Sir .Os yw'r lleoliadau dan sylw a'r Tir Cyngor Gwynedd mae'r pryderon yn cael ei anfon i'r adrannau priodol i weithredu, ond yn anffodus ni ellir dylanwadu ar berchnogion tir preifat i drin planhigion ymledol.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth ac anfon at

1. Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt a ydynt wedi cysylltu â pherchnogion y tiroedd preifat
2. Anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt a'i hwy yw perchnogion y tir o gwmpas Bont Lechen a thynnu ei sylw i'r planhigion sydd yn bla

B) Harbwr Mewnol

Derbyniwyd diweddariad gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn egluro bod rhaglennu'r gwaith i'w wneud cyn diwedd Mawrth 2015, yr oedd y gwaith yn barod i fynd i

dendr cyn y Nadolig 2014. Fel rhan o'r gwaith astudio bu arbenigwyr yn cerdded y safle a bu iddynt ddarganfod planhigyn nad oedd llawer yn gwybod amdano a derbyniwyd sylwadau fod y safle yn cynnwys "*Welsh mudwort*" sydd angen ei warchod o dan ddeddfau gwarchod planhigion, felly bydd rhaid ail wampioo peth ar y tendr er mwyn cadw o fewn canllawiau'r ddeddf., gallai peidio â chydymffurfio golygu oblygiadau cyfreithiol ac amharu neu ddileu'r gwaith.
Er hyn mae bwriad i fwrw ymlaen cyn gynted â phosibl a chadw o fewn y canllaw Mawrth 2015.

PENDERFYNIAD; Anfon at Gyfoeth Naturiol Cymru yn datgan cryn bryder ei bod n ystyried bywyd planhigyn yn bwysicach na bywyd dynol, os bydd llawer mwy o eodi bydd tyfiant yr Ynys yn achos gorlifo i mewn i'r Dref.
Sut y bydd symud ymlaen a beth yn union fydd yr ail wampio sydd i fod..

Cof;-0901/15 Ceisiadau Cynllunio.

.....

Ni ddaeth unrhyw gais cynllunio i law.

Cof;-1001/15 Llifogydd

.....

Cyflwynodd y Cyng. Michael Sol Owen dalfyriad o adroddiad JBA Consulting sydd yn ymestyn i ryw 50 o dudalennau. Mae copi o'r adroddiad ym meddiant y Clerc a hawl gan unrhyw berson ei weld neu gael copi ohono.

PENDERFYNIAD;-Derbyniwyd yr wybodaeth a diolchwyd i'r Maer, Cyng. Michael Sol Owen am y cyflwyniad yr oedd yn amlwg ei fod wedi rhoi oriau i mewn i'w ddarparu, gwerthfawrogwyd y gwaith gan yr holl Aelodau

Cof;-1101/15 Cofeb Cynan

.....

Adroddodd yr is bwyllgor ei bod wedi derbyn gohebiaeth oddi wrth John Meirion Morris yn cadarnhau fod ganddo ddiddordeb mewn creu penddelw o Cynan ond na allai ystyried cais y Cyngor i gerflunio morforwyn oherwydd ei oedran.
Costau terfynol creu a phenddelw choler fyddai £5600 gan gynnwys bas llechen, byddai angen i'r Cyngor ofalu am luniau da maint A4 o bob ongl bosibl o'i ben..

PENDERFYNIAD;-
Bu peth trafodaeth ar y mater, ar broblem fwyaf oedd dewis lle addas i osod y penddelw. Yn y diwedd gyda mwyafrif pleidlais 9 o blaid a 2 yn erbyn symud ymlaen i drefnu 'r gwaith, ac felly rhoi hawl i'r is bwyllgor wneud hyn a dod a syniadau yn ôl i'r cyfarfod llawn o leoliadau ar gyfer y penddelw.

Cof;-1201/15 Cynllun Datblygu Unedol.

.....

Derbyniwyd copi o lythyr personol y Cyng. Iwan Edgar i Adran Cynllun Datblygu lleol Cyngor Gwynedd.
Yr oedd y llythyr yn codi amryw o bwyntiau ar y cynllun lleol, yn gyntaf diolchodd am y cyfle i fynychu'r Seminar lle y cafwyd cyfle ar sawl pwynt i gytuno i anghytuno,
Eglurwyd fod dyhead y cynllun digon clodwiw parthed amddiffyn yr iaith ,ond yn wir ni fu iddo gael ei argyhoeddi.
Mae copi llawn o'r llythyr ar gael yn ffeil y Cyngor Tref.
Bu i'r Maer roi cyflwyniad byr a chyflwyno toreth o wybodaeth i'r Aelodau

PENDERFYNIAD;-Gan nad oedd y Cyng, Iwan Edgar yn y cyfarfod [asio'r mater i gyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Cof;-1301/15 Croesfan Ffordd Caerdydd.

.....

Adroddwyd gan Aelod fod y Gweinidog tros drafnidiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi ei bod yn cyflwyno cyflymdra traffig o 20 m.y.a. o flaen Ysgolion yn ystod oriau brig traffig. .Bydd £500.000 ar gael gan y Llywodraeth i ariannu'r cynllun, a fydd yn gweld arwyddion electroneg yn cynghori gyrwyr i yrru o dan 20m.y.a. ar gyfnodau pan fydd plant yn cael ei hebrwng i ac o ysgolion.

Datganodd y Gweinidog fod tystiolaeth yn dangos bod gwaharddiadau cyflymdra yn gallu gwella ymddygiad gyrwyr. .Bydd yr arwyddion wedi ei lleoli erbyn 2015 ac yn dod yn orfodol yn fuan wedi i'r gorchymyn ddod i rym.
Os bydd y cynllun yn llwyddiannus fe allai gael ei gyflwyno ger ysgolion eraill yn y ddwy flynedd nesaf.
O'r wyth ysgol yn y cynllun ar hyn o bryd mae'r mwyafrif yn y De. Ganllwyd a Bontnewydd a Llanuwchllyn yw'r ysgolion agosaf at Dref Pwllheli.

PENDERFYNIAD;-Anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn a yw Pwllheli yn yr ail ran o'r cynllun ac os na a yw Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwneud cais, Fe gafwyd asesiad o gyflymdra traffig yn yr ardal rai misoedd yn ôl felly anfon copi o hwnnw gyda'r cais.
Atgoffwyd yr Aelodau i gynrychiolaeth o'r Cyngor yma gael cyfarfod safle gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd am y groesfan, tybed felly beth yw'r diweddaraf ar y syniadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod hwnnw?

Cof;-1401/15 Parc Sglefyrddio.

.....

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyfeillion Parc Sglefyrddio Pwllheli yn adrodd fod diddordeb gan y cyhoedd a bod y pwyllgor wedi cael sawl cyfarfod ac yn awr mewn sefyllfa i gyflwyno ei syniadau ar gyfer y safle. Mae eisoes peth arian ar gael yn gyfrif y cyfeillion ac mae'r gr[illegible]wedi codi'r arian angenrheidiol. parc sglefrio concrid a gwneud hyn fesul cam, y cam cyntaf adeiladu hanner pibell a rhai cyrbiau. Wrth adeiladu gan ddefnyddio concrid yn gywir ni fydd fawr ddim o waith cynnal a chadw.
Mae gan y cyfeillion £1700 i gychwyn y cam cyntaf a gobeithio byddai'r Cyngor Tref yn cynorthwyo a chefnogi'r prosiect. trwy drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, Gobeithir cychwyn ar y cam cyntaf yn 2015..

PENDERFYNIAD;- Atgoffwyd y Cyngor ei bod eisoes wedi clustnodi £4,000 ar gyfer offer yn y parc. Ond cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar ollwng yr arian mae angen llawer mwy o wybodaeth, felly etholwyd Y Maer, Dirprwy Faer Cyng. Alan Williams, Michael Parry ac Eurig Eavns i gynrychioli'r Cyngor i gyfarfod Aelodau o'r Pwyllgor Cyfeillion. Ac adrodd yn ól i gyfarfod llawn o'r Cyngor Tref.

Cof;-1501/15 Llwybrau o gwmpas Swyddfeydd Dwyfor

.....

Tynnwyd sylw i gyflwr yr amryw lwybrau o gwmpas Lôn Cob Bach a Swyddfeydd Dwyfor, yn wir maent angen sylw yn ogystal â'r winllan ei hun.

PENDERFYNIAD;- Y Clerc i anfon gair i Gyngor Gwynedd i dynnu ei sylw i'r mater (addawodd Aelod o'r Cyngor dynnu llunia a'i anfon i'r Clerc fel tystiolaeth o'r cyflwr presennol)

Cof;-1701/15 Meinciau

.....

Yn dilyn gwaith cynnal a chadw ar y meinciau tynnwyd sylw gan y Maer ein bod wedi gorfod cael gwared â rai meinciau oherwydd ei cyflwr a bod angen prynu 3 mainc.

PENDERFYNIAD;- Rhoi hawl i'r Clerc symud ymlaen i brynu 3 mainc newydd mewn cydweithrediad a'r Maer.

Cof;-1801/15 Derbyniadau

.....

Rhent Arced J Adams	£250.00
Rhent Arced M Adams	£250.00
Cyngor Gwynedd Cynnal Llwybrau	£1.800.00

.....

Ennillwyr Cystadleuaeth Nadolig Y Cyngor

Siopau

1af Y Siop Fach (Copi)	£75.00	Siec 202614
2ail Siop Hefina	£50.00	202615
3ydd. Siop Eluned	£25.00	202616

Tai

1af Carol a Saynor	£75.00	202617
2ail D Shilvock	£50.00	202618
3ydd. Vanessa Lea	£25.00	202619

Kon X Wales Llun Gopio	£ 11.10	202621
S Andrews – Rhent Storfa	£331.92	D D
Llechen Llyn – Ysgrythu ar 2 gwpan	£ 10.00	202624
Cyllid y Wlad (PAYE)	£294.55	202622
G A Roberts – Glanhau Siambr	£ 50.00	202623
BNP Paribas - Les Llun Gopïwr	£ 94.80	D. D.
B T - Ffón y Bandlydan Swyddfa	£210.45	D. D.

PENDERFYNIAD;- Derbyn y y wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu yr oll o'r biliau

Mynd yn gaeedig

Sgwâr y Farchnad.

Tynnwyd sylw at hen broblemau sydd hyd yma heb ei datrys er bod y Cyngor Tref yn pwyso ar Gyngor Gwynedd i weithredu,

PENDERFYNIAD;- Anfon unwaith eto lythyr cryf iawn i Gyngor Gwynedd i gael eglurhad am y diffyg gweithredu

Aeth y Cyngor yn ól yn agored.

Daeth y cyfarfod i ben am;- 8.30.y.h.

Bydd rhaglen y cyfarfod nesaf yn cau 28 Ionawr 2015

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 5 Chwefror 2015..

.